

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LOUISA PLACE, BUTETOWN, CAERDYDD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 252 a 253 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"), yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf 1990 i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 os rhoddir caniatâd cynllunio.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Louisa Place, Butetown, Caerdydd) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn cymryd effaith pan weithredir y caniatâd cynllunio a bydd yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 6 Rhagfyr 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn swyddfeydd Cyngor Caerdydd, Adran Adfywio Cymdogaethau, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW (gofynnwch am Matthew Scanlon/Nicky Scott) neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1601326.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau gan nodi ar ba sail y'u gwneir drwy e-bost at [Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru) neu yn ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 3 Ionawr 2023.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LOUISA PLACE, BUTETOWN, CARDIFF) ORDER 202-

The Welsh Ministers, in accordance with sections 252 and 253 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act"), propose to make an Order under section 247 of the 1990 Act to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 2 to be carried out if planning permission is granted.

The Stopping Up of Highways (Louisa Place, Butetown, Cardiff) Order 202- ("the Order"), if made, will take effect upon the implementation of the planning permission and shall cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 6 December 2022 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Cardiff Council, Neighbourhood Regeneration Department, County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff, CF10 4UW (ask for Matthew Scanlon/Nicky Scott) or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1601326.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by email to [TransportOrdersBranch@gov.wales](mailto:TransportOrdersBranch@gov.wales) or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 3 January 2023.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if

parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**G N JONES**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**  
**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd, sydd rhwng yr eiddo o'r enw Rhif 3 Louisa Place a Rhif 7 Adelaide Street, yn Butetown, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 50 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod '1' iddo ar y plan a adnewwyd.
2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd, sydd rhwng yr eiddo o'r enw Rhifau 11 i 15 Louisa Place a Rhifau 16 i 19 Louisa Place, yn Butetown, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 135 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod '2' iddo ar y plan a adnewwyd.
3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd, sy'n cysylltu Louisa Place a James Street, yn Butetown, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 75 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod '3' iddo ar y plan a adnewwyd.
4. Darn petryalog ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd, sy'n gyfagos i'r eiddo o'r enw Rhif 33 Louisa Place, yn Butetown, Caerdydd y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 14 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir cyfeirnod '4' iddo ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 2**  
**Y datblygiad**

Datblygiad sy'n cynnwys newid defnydd priffordd/llwybr cerdded i gwrtil preswyl (estyn gerddi) yn Louisa Place, Butetown, Caerdydd.

there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**G N JONES**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE 1**  
**(All measurements are approximate)**  
**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregularly shaped length of highway comprising footway, situated between the properties known as No. 3 Louisa Place and No. 7 Adelaide Street, in Butetown, Cardiff having a total area of 50 square metres, shown by zebra hatching and given the reference '1' on the deposited plan.
2. An irregularly shaped length of highway comprising footway, situated between the properties known as Nos. 11 to 15 Louisa Place and Nos. 16 to 19 Louisa Place, in Butetown, Cardiff having a total area of 135 square metres, shown by zebra hatching and given the reference '2' on the deposited plan.
3. An irregularly shaped length of highway comprising footway, that connects Louisa Place and James Street, in Butetown, Cardiff having a total area of 75 square metres, shown by zebra hatching and given the reference '3' on the deposited plan.
4. A rectangular shaped length of highway comprising footway, situated adjacent to the property known as No. 33 Louisa Place, in Butetown, Cardiff having a total area of 14 square metres, shown by zebra hatching and given the reference '4' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**  
**The development**

Development comprising the change of use from highway/walkway to residential curtilage (garden extensions) at Louisa Place, Butetown, Cardiff.

